PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 13 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd), Y Cynghorwyr De'Ath, Philippa Hill-John, Joyce, Morgan, Murphy, Phillips a/ac Singh |
| : | Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru), Rebecca Crump (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) a/ac Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) |

7 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017, 9 Ionawr 2018 a 13 Chwefror 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

8 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Rhys Taylor.

9 : DATGAN BUDDIANNAU

Mynegodd Rebecca Crump fuddiant personol yn eitem 5, gan fod ei phlant yn mynychu Ysgol Gynradd Parc y Rhath. Mynegodd Karen Dell’Armi hefyd fuddiant personol yn eitem 5 gan ei bod yn Gynrychiolydd Rhieni Lywodraethwyr

10 : GWASANAETH IEUENCTID - BRIFFIO

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), y Cynghorydd Ashley Lister (Aelod Cabinet Cynorthwyol dros y Gwasanaethau Ieuenctid), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Simon Morris (Arweinydd Cyrhaeddiad, Cymorth Ieuenctid) a James Healan (Arweinydd Tîm Ymyrraeth Gynnar ac Atal) i’r cyfarfod.

Hefyd, croesawodd y Cadeirydd Steve Khaireh o Ganolfan Datblygu Cymunedol De Glan-yr-afon ynghyd â Jess Head ac Ashanti Rule (aelodau Canolfan Gweithgareddau Ieuenctid Llanedern), Ffion Harding (Darpariaeth Gofalwyr Ifanc) a Sam Evans ac Ezra O’Connor (aelodau Grassroots) i’r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet Cynorthwyol i wneud datganiad, lle amlygodd y cynnydd da a welir yn y gwasanaeth, gydag adolygiad y Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd ar fin ddod i ben. Ychwanegodd fod staff yn cwblhau gwiriadau iechyd i sicrhau bod yna safon darpariaeth da.

Dangoswyd fideo i’r Pwyllgor o waith y Gwasanaeth Ieuenctid.

Rhoddodd Simon Morris (Arweinydd Cyrhaeddiad, Cymorth Ieuenctid) a James Healan (Arweinydd Tîm Ymyrraeth Gynnar ac Atal) gyflwyniad i aelodau yn sôn am y pwyntiau canlynol:

- Beth mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ei gynnig yng Nghaerdydd?
- Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni?
- Beth yw'r heriau?
- Beth yw'r cyfleoedd?

Fel rhan o'r cyflwyniad, clywodd aelodau safbwyntiau pobl ifanc o ran eu profiad nhw o'r gwasanaeth, fe bwysleision nhw pa mor bwysig oedd y gwasanaeth iddynt, gan eu helpu i ddysgu sgiliau newydd a chael swydd, yn ogystal â chymorth gyda phroblemau iechyd meddwl.

Rhannodd Steve Khaireh wybodaeth am waith y Grant Gwella Ieuenctid (GGI) yng Nghanolfan Datblygu Cymunedol De Glan-yr-afon, lle esboniodd fod y gwasanaeth yn cael ei ariannu'n rhannol trwy'r GGI. Mae'r rhaglen yn llwyddiant ysgubol, yn cael ei rhedeg dros 5 diwrnod yr wythnos gyda dros 100 o aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu, yn enwedig y bobl ifanc a gymerodd ran a rhannu eu profiadau o'r Gwasanaeth Ieuenctid.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

11 : DERBYNIADAU YSGOL - ADRODDIAD DRAFFT I'R CABINET

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Brett Andrewartha (Rheolwr Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle amlygodd y pwysau ar ysgolion uwchradd a'r angen i symleiddio'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. Yn dilyn adolygiad annibynnol gan Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd Cymru, Data a Dulliau (WISERD) ac ymgynghoriad cyhoeddus ar ddau ddewis (Dewis A a Dewis B), argymhellwyd y dylai'r Cabinet weithredu Dewis A, sy'n unol â'r polisi cyfredol.

Rhoddodd Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) ddatganiad hefyd, lle esboniodd, yn dilyn ymgynghoriad, mai dim ond ychydig o bryderon a godwyd mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar gyfer addysg feithrin a chynradd. Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon mewn perthynas ag addysg uwchradd. Dywedodd y bydd y Cabinet cyn bo hir yn derbyn adroddiad ar ddiwygiadau i ddalgylchoedd ysgolion ar gyfer 2020/21 a bod tri ffactor sydd angen eu hystyried wrth edrych ar hyn; y meini prawf derbyn i ysgolion; nifer y lleoedd mewn ysgol; a'r dalgylchoedd.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd aelodau y cafodd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ei gynnal ar Ddewis B, ond nid ar Ddewis A. Codwyd pryderon mewn perthynas ag ysgolion cynradd Parc y Rhath a Marlborough, lle mae yna gyfran uchel o ddisgyblion sy'n byw ar ffin y dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd Caerdydd ac nad ydynt yn cael lle oherwydd y meini prawf pan

fo mwy o geisiadau na lleoedd. Esboniodd yr Aelod Cabinet na fydd unrhyw newidiadau yn cael eu rhoi ar waith tan 2019, ac y gallai'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd fod yn wahanol iawn a bod angen ystyried y sefyllfa ledled y ddinas. Esboniodd swyddogion fod y dadansoddiad yn dangos y byddai gweithredu Dewis B yn cael effaith negyddol ar y pedair ysgol uwchradd, na fyddai'n gallu derbyn nifer y disgyblion a fyddai'n dod o'u hysgolion cynradd cysylltiedig. Tu hwnt i 2029/20 byddai effaith hyn yn gwaethygu. Yn gyffredinol, mae Dewis A yn well i'r ddinas gyfan.

- Nododd aelodau y bydd y 79% o aelodau a ddewisodd Dewis B yn teimlo nad oes unrhyw un wedi gwrando ar eu safbwyntiau, ac aethant ymlaen i ofyn sut oeddent yn mynd i ddelio â hyn. Nododd yr Aelod Cabinet y byddai nifer o rieni yn teimlo'r un mor gryf am Ddewis A, a'i fod yn bwysig nodi na fyddai nifer o rieni a allai gael eu heffeithio gan y newidiadau wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r mater, gan gynnwys yr effaith ar yr holl ysgolion.

- Cytunodd aelodau fod angen datrysiad dinas eang gan holi p'un a fyddai'n fwy addas gweithredu'r newidiadau i'r meini prawf ar ôl asesu effaith Ysgolion Band B. Esboniodd y Cyfarwyddwr nad oes unrhyw amser perffaith i wneud asesiad, bod angen diwygio'r meini prawf a byddai'n amser hir cyn cael canlyniad Band B. Ychwanegodd ei fod yn bwysig cyfnerthu a chadarnhau'r broses derbyn i ysgolion nawr gyda phoblogaeth sy'n cynyddu'n gyflym.

- Amlygodd aelodau bod yr adroddiad addysg yn dangos gwelliant ar draws yr holl ysgolion uwchradd, gan ofyn beth y gellid ei wneud i hyrwyddo ysgolion nad ydynt mor boblogaidd. Cafodd aelodau wybod bod Ysgolion Uwchradd Willows a Cathays wedi bod yn gweithio'n agos ag ysgolion cynradd. Gwnaethpwyd gwaith hefyd ar y ffurflenni cais i annog rhieni i ddewis mwy nag un ysgol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod newid eisoes ar waith, gydag Ysgol Uwchradd y Dwyrain nawr yn denu cynigion dewis cyntaf er enghraifft, a gydag ysgolion newydd sydd wedi agor dylem weld newid o ran dewisiadau disgyblion dros y flwyddyn nesaf.

- Nododd aelodau er ein bod wedi gweld gwelliant ar draws ysgolion uwchradd, bydd oedi o ran canlyniadau gwell, ac mae rhieni yn edrych ar y rhain wrth ddewis ysgol. Cytunodd y Cyfarwyddwr ei fod yn cymryd amser i ganfyddiadau newid, ond dylai Caerdydd fod yn falch o'r ffaith bod ysgolion yn gwneud yn well na gweddill Cymru. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet nad yw canlyniadau arholiadau o angenrheidrwydd yn adlewyrchu gwaith yr ysgol.

Cafwyd hefyd nifer o gwestiynau yn ysgrifenedig gan Aelodau o'r Cyhoedd fel y manylir isod:

- Nododd Grŵp Gweithredu Plant Marlborough (GGPM) fod y Cyngor fel pe bai'n blaenoriaethu anghenion Ffydd a Iaith Gymraeg dros y rheiny o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad dyma'r achos, ac y gwnaethpwyd asesiad cytbwys o ysgolion ledled y ddinas.

- Gofynnodd GGPM sut y bydd y Cyngor yn ymdrin â'r nifer uchel o geisiadau i Ysgol Uwchradd Caerdydd, sy'n rhoi disgyblion o Ysgolion Cynradd Marlborough a Pharc y Rhath dan anfantais.  Esboniodd yr Aelod Cabinet fod canlyniad ymatebion y disgyblion i'r ymgynghoriad yn dangos taw agosrwydd i'r ysgol yw'r flaenoriaeth a bod yna ysgolion uwchradd agosach. Wrth fynd ymlaen, caiff y dalgylchoedd eu hadolygu ac ysgolion uwchradd eu hehangu.

- Holodd GGPM p'un a fyddai Cynghorwyr yn fodlon siarad â disgyblion sydd ym mlwyddyn 5 a 6 yn ysgolion cynradd Marlborough a Pharc y Rhath ar hyn o bryd i drafod yr effaith y mae'r broses yn ei chael arnynt. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ystyried hyn, ond os byddai, byddai'n gwneud hynny er mwyn siarad â'r disgyblion o'i phrofiadau fel rhiant.

- Cafodd y mater o ddiffyg asesiad AEG ar Ddewis A ei godi eto.

- Holwyd ymhellach pam y dewiswyd Dewis A, er bod y mwyafrif o ymatebwyr wedi dewis Dewis B.  Esboniodd y Cabinet y cafodd nifer o bryderon eu codi o ran Dewis B a fyddai'n effeithio ar nifer o ddisgyblion. Hefyd, nid wnaeth rhai rhieni a fyddai wedi cael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig ymateb i'r ymgynghoriad.

- Nodwyd hefyd bod y mwyafrif o'r cyrff ffurfiol a fynegodd farn wedi dewis Dewis B a bod eu safbwyntiau wedi'u diystyru, atebodd yr aelod Cabinet drwy ddweud bod pob ymateb wedi'i ystyried a bod angen gwneud penderfyniad cytbwys.  Amlygodd yr adroddiad WISERD fod elfennau positif a negyddol i'r ddau ddewis.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 12 : CHWARTER 3 PERFFAITH CORFFORAETHOL A CHATEGORI YSGOLION

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry (Diprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Jackie Turner (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle amlygodd ein bod yn gweld gwelliant ledled Caerdydd, ond nododd fod heriau'n parhau, gan gynnwys o ran lleihau'r bwlch a chyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, gan nodi'r drefn flaenoriaeth ar gyfer y llwyth gwaith cynnal a chadw asedau a gwella darpariaeth a chymorth i'r rheiny ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Rhoddodd Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) ddatganiad lle dywedodd fod y canlyniadau hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol, ond y bydd

adroddiadau ESTYN yn parhau i gael eu monitro. O ran heriau, mae'r gyllideb ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir yn parhau i roi pwysau. Ychwanegodd y cynhaliwyd ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ADY ym mis Ionawr.

Gwnaeth Jackie Turner (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg) hefyd ddatganiad lle amlinellodd y gwelliannau sydd wedi'u gweld ar draws yr holl ysgolion. Yn y sector cynradd, mae'r gyfran o ysgolion yn y categorïau gwyrdd a melyn yn uwch na ffigurau Cymru. Gwelir patrwm tebyg o welliant ar draws ysgolion uwchradd, gyda dim ond 1 wedi'i gategoreiddio fel coch (er mae'r ysgol hon yn gwneud cynnydd da). Mae ysgolion arbennig wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, heb unrhyw un yn y categori coch. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar gymariaethau safoni rhanbarthol gydag Awdurdodau Lleol eraill, ac mae Caerdydd yn gwneud yn dda ar y cyfan.

Roedd aelodau'n falch gyda'r adroddiad ac nid oedd ganddynt unrhyw gwestiynau.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 13 : ADRODDIAD PERFFORMIAD Y 3YDD CHWARTER - GWASANAETHAU I BLANT

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd) ac Irfan Alam (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad, lle dywedodd er bod lefel uchel o waith cymhleth, mae perfformiad yn parhau i fod yn dda diolch i waith caled y staff. Un o'r pwysau parhaus yw bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn cynyddu, ond mae'r Gyfarwyddiaeth yn edrych ar strategaethau cymorth cynnar i ymdrin â hyn ac mae Cynghorau ledled y DU yn delio â chynnydd o ran plant sy'n derbyn gofal sydd â phroblemau cymhleth.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd aelodau fod y gyfradd llwyth gwaith plant sy'n derbyn gofal yn uwch yng Nghaerdydd na gweddill Cymru. Esboniodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ein bod wedi gweld tuedd am i fyny, gyda chynnydd ledled Cymru a'r DU. Mae Caerdydd yn ddinas fwy nag eraill yng Nghymru ac felly â chyfran uwch o blant sy'n derbyn gofal.

- Gofynnwyd am fwy o wybodaeth monitro yn dilyn adroddiad perfformiad Chwarter 2 yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Nododd aelodau er bod yr adroddiad Chwarter 3 newydd yn sylweddol, ei fod yn rhy gymhleth ac yn anodd dod o hyd i'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani. Esboniodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ei fod yn anodd darparu data cymharol ar gyfer rhai ardaloedd oherwydd newidiadau a gyflwynwyd y llynedd, fodd bynnag, caiff newidiadau pellach eu gwneud i'r adroddiad nesaf.

- Nododd aelodau fod canran y swyddi Gweithwyr Cymdeithasol wedi cynyddu ers Chwarter 2 a chawsant wybod bod hyn i ryw raddau oherwydd bod swyddi

wedi'u hail-ddyrannu, gyda rhai aelodau presennol o staff yn symud i swyddi newydd; gyda'u swyddi gwreiddiol felly'n parhau'n wag. Cafodd aelodau eu calonogi bod swyddi yn cael eu creu, ond holwyd ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i benodi i'r swyddi gwag. Holodd aelodau hefyd p'un a yw Gweithwyr Cymdeithasol sydd wedi'u recriwtio yn cael eu cadw. Cafodd aelodau wybod fod gan Weithwyr Cymdeithasol gyfnod rhybudd o 8 wythnos ond mae hyn yn amrywio o awdurdod i awdurdod. Cafodd aelodau hefyd wybod bod y Cyngor yn cadw staff, gyda rhai'n dychwelyd ar ôl gadael yn flaenorol. Cafodd aelodau wybod y byddai'n heriol i leihau'r cyfnod rhybudd yn unol ag awdurdodau eraill gan fod gan yr awdurdod un polisi ar gyfer pob aelod o staff.

- Ceisiodd aelodau eglurhad ar y gost arweiniol o ran staff asiantaeth a chawsant wybod mai'r gost hyd yn hyn yw £1,994,000. Gellir rhoi data cymharol o'r blynyddoedd diwethaf mewn adroddiad yn y dyfodol. Gofynnodd aelodau hefyd am wybodaeth yn y dyfodol ar y farchnad asiantaethau Gweithwyr Cymdeithasol a sut mae'r asiantaethau hyn yn gweithredu.

- Nododd aelodau fod perfformiad mewn perthynas ag amseroldeb asesiadau lles statudol wedi gostwng yn Chwarter 3 a chawsant wybod bod system ar waith i sicrhau bod plant yn cael eu gweld mewn modd amserol. Dylid blaenoriaethu a rheoli'r galw. Mae'r broses yn cael ei chraffu'n agos, ac mae uwch reolwyr uwch yn adolygu adroddiadau perfformiad yn wythnosol. Gofynnodd aelodau p'un a ellid ail-feddwl y gofynion statudol os nad ydynt yn bosibl, ond esboniodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ei fod yn beth da cael yr amserlen hon i sicrhau eu bod yn parhau i wella, a bod y sefyllfa yn cael ei hadolygu'n gyson.

- Cyfeiriodd yr aelodau at y Targedau Dangosyddion Perfformiad gan nodi bod yna nifer o ddangosyddion lle na osodir targedau ar eu cyfer. Amlygodd aelodau y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael e.e. i nifer y plant sy'n derbyn gofal a nifer y plant mewn lleoliadau y tu allan i'r sir sy'n dychwelyd i Gaerdydd, ond dywedwyd wrthynt nad yw'n briodol gosod targedau ar gyfer rhai ardaloedd. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod nifer y plant sy'n derbyn gofal (810) yn cael ei nodi yn yr adroddiad ac y byddant yn adrodd ar y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n edrych ar leoliadau y tu allan i'r sir cyn bo hir. Esboniodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y bydd ffigurau dangosyddion perfformiad blynyddol ar gael yn yr adroddiad diwedd blwyddyn. Awgrymodd aelodau y gellid adrodd ar y wybodaeth chwarterol mewn ffordd gliriach.

- Roedd aelodau'n falch bod y Ganolfan Adnoddau Llencyndod (CALI) yn cael effaith gadarnhaol a gofynnwyd p'un a ellid cynyddu'r capasiti. Dywedwyd wrth aelodau ers i'r CALI fynd yn fyw yn Ebrill 2017 fod y capasiti eisoes wedi'i gynyddu, a'u bod nhw yn y broses o recriwtio mwy o weithwyr cymorth, Gweithiwr Cymdeithasol ychwanegol a'u bod nhw hefyd yn edrych ar recriwtio dau weithiwr seibiant ychwanegol.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

14 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd a nodi nifer o broblemau y cytunodd y Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

15 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc am 4.30pm, dydd Mawrth 17 Ebrill.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35 pm